OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 1490

# Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

**Tenantiaethau Preswyl (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan)**

**2.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni chaiff unrhyw berson fod yn bresennol mewn tŷ annedd at ddiben—

(a) gweithredu gwrit neu warant meddiant;

(b) gweithredu gwrit neu warant adfer; neu

(c) danfon hysbysiad troi allan.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo'r llys wedi ei fodloni bod yr hysbysiad, y writ neu'r warant yn ymwneud â gorchymyn meddiant a wneir—

(a) yn erbyn tresmaswyr yn unol â hawliad y mae rheol 55.6 (cyflwyno hawliadau yn erbyn tresmaswyr) o Reolau'r Drefniadaeth Sifil 1998(**1**) yn gymwys iddo;

(b) yn llwyr neu'n rhannol o dan adran 84A (sail absoliwt ar gyfer meddiannu am ymddygiad gwrthgymdeithasol) o Ddeddf Tai 1985(**2**);

(c) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 2 neu Sail 2A yn Atodlen 2 (seiliau ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau diogel) i Ddeddf Tai 1985(**3**);

(d) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 7A, Sail 14 neu Sail 14A yn Atodlen 2 (seiliau ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau sicr) i Ddeddf Tai 1988(**4**);

(e) yn llwyr neu'n rhannol ar Sail 7 yn Atodlen 2 (sail ar gyfer meddiannu pan fo tenant yn marw ac na cheir hawl olyniaeth) i Ddeddf Tai 1988(**5**); neu

(f) yn llwyr neu'n rhannol o dan achos 2 o Atodlen 15 (sail ar gyfer meddiannu tai annedd sy'n cael eu gosod o dan denantiaethau gwarchodedig neu statudol, neu sy'n ddarostyngedig iddynt) i Ddeddf Rhenti 1977(**6**).

(3) Pan fo paragraff 2(e) yn gymwys, rhaid i'r person sy'n bresennol yn y tŷ annedd gymryd camau rhesymol i'w fodloni ei hun nad yw'r tŷ annedd wedi ei feddiannu cyn cyflawni'r materion hynny a nodir yn rheoliad 2(1)(a), (b) neu (c).

---

(**1**) O.S. 1998/3132. Mewnosodwyd rheol 55.6 gan O.S. 2001/256 rh 17, Atodlen 1.

(**2**) 1985 p. 68, mewnosodwyd adran 84A gan adran 94(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ("Deddf 2014").

(**3**) Amnewidiwyd Sail 2 gan adran 144 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) ("Deddf 1996") ac fe'i diwygiwyd gan adran 98(1) o Ddeddf 2014 ac Atodlen 7 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15) ("Deddf 2005"). Mewnosodwyd Sail 2A gan adran 145 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan Atodlen 8 i Ddeddf Partneriaeth Sifil 2004 (p. 33) ("Deddf 2004") a chan Atodlen 3 i O.S. 2019/1458.

(**4**) 1988 p. 50. Mewnosodwyd Sail 7A gan adran 97(1) o Ddeddf 2014. Amnewidiwyd Sail 14 gan adran 148 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan adran 98(2) o Ddeddf 2014 ac Atodlen 7 i Ddeddf 2005. Mewnosodwyd Sail 14A gan adran 149 o Ddeddf 1996 ac fe'i diwygiwyd gan Atodlen 8 i Ddeddf 2004, O.S. 2019/1458, O.S. 2010/866 ac O.S. 2011/1396.

(**5**) Diwygiwyd Sail 7 gan adran 162 o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20) ac Atodlen 25 iddi.

(**6**) 1977 p. 42.